



HARBWR SAUNDERSFOOT

a

CHANOLFAN ARFORDIROL RHYNGWLADOL CYMRU

Cynorthwydd Gweithrediadau ac Ymwelwyr

Cyflog: £18,500 - £21,500 pa

Rôl: Contract Blwyddyn, Llawn amser

Mae Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru (CARhC) yn ddatblygiad £10 miliwn sydd ar y gweill ar hyn o bryd yn Harbwr Saundersfoot, wedi'i ariannu gan Lywodraeth Cymru, Corff Cyllido Ewropeaidd a Chronfa Cymunedau Arfordirol. Mae'r datblygiad newydd yn cynnwys Canolfan Groeso a Threftadaeth, Plaza Sgwâr Cefnfor ac Unedau Manwerthu, Llwyfan Achlysuron Cenedlaethol a Sgwner Arfordirol, Canolfan Rhagoriaeth Morwrol, a thair canolfan dehongli yn canolbwyntio ar dreftadaeth cloddio glo a morwrol Saundersfoot, a'r amgylchedd.

Fel rhan o'r datblygiad hwn mae Harbwr Saundersfoot nawr yn chwilio am Gynorthwydd Gweithrediadau ac Ymwelwyr i gefnogi ein tîm rheoli gyda'r dodrefnu a gwaith parhaus Canolfan Arfordirol Rhyngwladol Cymru.

Cyfrifoldebau sylfaenol yn cynnwys:

- Cynorthwyo gyda'r gweithredu o ddydd i ddydd a rheoli cyfleusterau adeiladau'r Harbwr
- Cynorthwyo gyda chynnal a datblygu'r Ganolfan Groeso a Threftadaeth, Sgwner Arfordirol, a'r Ganolfan Storm.
- Cynorthwyo gyda threfnu, logisteg a rheoli achlysuron.
- Cynorthwyo gyda marchnata a hyrwyddo atyniadau ymwelwyr ac achlysuron.
- Cynorthwyo i gynnal, diweddarau a chynyddu presenoldeb ar-lein yr Harbwr.
- Delio â chwynion ac ymholiadau.

Os medrwch gynnig profiad o ran wynebu cwsmeriaid yn y diwydiant twristiaeth, rheoli cyfleusterau, cydlynu achlysuron, marchnata, cysylltiadau cyhoeddus, neu gyswllt cymunedol/cwsmeriaid, yna, fe hoffem glywed gennych.

Am fwy o wybodaeth am y dyletswyddau a'r profiad fydd ei angen, gweler isod.

Dyletswyddau:

- Delio ag ymholiadau ymwelwyr a chyfeirio'r rhain i eraill os yn angenrheidiol/briodol. Bydd hyn yn cynnwys galwadau ffôn a phlatfformau cefnogi ar-lein ac ati.
- Darparu gwybodaeth berthnasol i ymwelwyr megis amserau teithiau, mapiau llwybrau ac ati.
- Yn ddyddiol: agor a chau'r Ganolfan Groeso/atyniadau ymwelwyr eraill a delio ag arian
- Nodi tueddiadau tymhorol a chyfleoedd marchnata i gynorthwyo'r tîm gweithredol i fwyhau potensial atyniadau ymwelwyr CARhC
- Cynnal basdata cleientiaid yn fanwl gywir a'u datblygu ar gyfer ymgyrchoedd marchnata, datganiadau'r wasg, y wefan a chyfryngau cymdeithasol
- Cysylltu gyda chwsmeriaid yr Harbwr a chontractwyr



- Rheoli timau o staff a'u hyfforddi, pan mae angen
- Unrhyw ddyletswyddau eraill sy'n briodol i'r swydd

Cymwysterau a Phrofiad:

Angenrheidiol

- Addysgu i safon dda neu yn medru dangos profiad cyfatebol priodol.
- Cyfrifiadurol lythrennog gyda sgiliau Microsoft Office addas ar gyfer dyletswyddau'r swydd yn ogystal â sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar ardderchog
- Gallu i ddelio ag ymholiadau a chwynion, peidio â chynhyrfu ac ymateb yn gadarnhaol i sefyllfaoedd heriol
- Sylw cadarn i fanylion, sgiliau trefnu a gweinyddu gyda'r gallu i flaenoriaethu a chyflawni amlorchwyl tra cedwir gradd uchel o gyfrifoldeb a chyfrinachedd
- Agwedd hyblyg, cyfeillgar a hyderus gyda sgiliau rhyngpersonol da wrth ymwneud â'r cyhoedd a staff
- Hunan-gychwynydd a chwaraewr tîm gydag agwedd gadarnhaol, ymarferol a brwdfrydig wrth ddatrys problemau a phenderfynu
- Gallu i reoli baich gwaith amrywiol mewn amgylchedd prysur
- Mae hon yn rôl weithgar a bydd angen lefel da o ffitrwydd
- Bydd y rôl yn cynnwys gweithio gyda'r nos, penwythnosau a gwyliau banc a rhaid wrth agwedd hyblyg.
- Rhaid wrth drwydded yrru lawn a glân a darparu eich trafndiaeth eich hun

Dymunol

Mae'r cymwyseddau hyn yn ddymunol er ddim yn angenrheidiol am y gellir rhoi hyfforddiant yn unol ag anghenion y busnes.

- Profiad blaenorol mewn rôl wynebu cwsmeriaid oddi fewn i'r diwydiant twristiaeth
- Creadigrwydd a pharodrwydd i ddatblygu sgiliau mewn marchnata gweledol e.e. dylunio posteri, hysbysebion ac ati
- Delio ag arian, defnyddio system EPOS, a rheoli lefelau stoc
- Gwybodaeth o reoli cyfleusterau a'r gallu i drefnu trwsio cyfredol a chynnal oddi fewn i gyllideb
- Profiad o CMS, marchnata e-bost, a chyfryngau cymdeithasol ar gyfer defnydd busnes
- Gallu i siarad Cymraeg

Rhinweddau a Phriodoleddau Personol:

Dealltwriaeth ac ymrwymiad i gyfleoedd cyfartal; dealltwriaeth glir o brosesau Asesu Iechyd a Diogelwch a Risg; canlyniadau gyfeiriedig; hunan-gymelliedig; gallu i weithio o dan bwysau; cywirdeb; tegwch a chysondeb; barod i ddysgu sgiliau newydd, pan fydd angen, i gyflawni'r rôl yn effeithiol.

Nid yw'r swydd ddisgrifiad hwn wedi'i fwriadu i fod yn drwyadl ac yn ychwanegol i'r swyddogaethau hyn, bydd rhaid i ddeilydd y swydd gyflawni dyletswyddau eraill fydd yn rhesymol angenrheidiol, ar yr amod ei fod oddi fewn eu cymwyseddau neu hyfforddiant fydd yn sicrhau'r cymwyseddau.

Gwnaed y swydd hon yn bosibl trwy ddatblygiad cyfleusterau'r Harbwr newydd gyda chefnogaeth wrth Gyllido Ewropeaidd Llywodraeth Cymru a Chronfa Cymunedau Arfordirol.